**Senedd Cymru**
**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Awtistiaeth**

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023

Ers ei sefydlu fwy nag 20 mlynedd yn ôl, mae'r Grŵp Trawsbleidiol ar Awtistiaeth wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddwyn pobl awtistig, eu teuluoedd, eu ffrindiau a'u gofalwyr ynghyd â gweithwyr proffesiynol ac Aelodau o'r Senedd, a hynny er mwyn trafod gwasanaethau a chymorth.

## 1. Aelodaeth y Grŵp a deiliaid swyddi

**Cadeirydd:** Mark Isherwood AS

**Aelodau eraill:**

Paul Davies AS
Hefin David AS
Heledd Fychan AS
Mike Hedges AS
Joyce Watson AS

**Ysgrifennydd**: Tim Nicholls, Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru

*Nodyn: Gwnaeth Chris Haines roi'r gorau i'w rôl gyda'r Gymdeithas ym mis Hydref, a phenodwyd ei olynydd fel ysgrifennydd yn ystod y cyfarfod cyffredinol blynyddol.*

## 2. Cyfarfodydd grŵp

Mae'r Grŵp Trawsbleidiol ar Awtistiaeth wedi cynnal pedwar cyfarfod cyhoeddus dros y flwyddyn ddiwethaf: ar Ionawr 19, Ebrill 17, Medi 28, a 1 Rhagfyr 2023, pan gynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Cafodd y cyfarfodydd hyn eu cynnal ar ffurf hybrid, gyda rhai pobl yn bresennol yn y cnawd ac eraill yn ymuno drwy Microsoft Teams. Cynhaliwyd y cyfarfodydd ym mis Ionawr a mis Medi yn Nhŷ Hywel ym Mae Caerdydd. Cynhaliwyd y cyfarfod ym mis Ebrill gan Brifysgol Bangor.

Mae crynodebau o'r materion a drafodwyd, ynghyd â rhestrau o'r rhai a oedd yn bresennol, wedi'u cynnwys isod:

**Ionawr 19, 2023** – Cyfarfod Hybrid, Tŷ Hywel/Microsoft Teams

**Trosolwg:** Cafwyd trosolwg o waith y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol gan Sioned Thomas, Frances Rees a Kirsty Jones, swyddogion datblygu sy'n gweithio ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Gwnaeth y swyddogion hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut mae'r Tîm yn cefnogi'r broses o weithredu'r Cod Ymarfer, gan egluro y bydd Dr Duncan Holtom yn arwain gwerthusiad cysylltiedig.

Gwnaeth Rosie Edwards, cydlynydd addysg a chyngor pontio Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru, amlinellu sut y gall yr elusen helpu'r broses o ddarparu cyngor a chymorth ynghylch hawliau addysgol, prosesau pontio, gwaharddiadau ysgol, a thribiwnlysoedd addysg. Dywedodd fod y Gymdeithas hefyd yn cynnig llinell gymorth rhiant-i-riant, a arweinir gan wirfoddolwyr, a all ddarparu cymorth emosiynol i rieni a gofalwyr.

**Yn bresennol:** Mark Isherwood AS, Carolyn Thomas AS, Frances Rees, Sioned Thomas, Kirsty Jones, Rosie Edwards, Chris Haines, Keith Igram, Megan Thomas, Shaun Bendle, Jeff Morris, John Price, Stephane Guidon, Kyle Eldridge, Carys Holt, Catherine Ede, Catherine Vaughan, Steffan Davies, Sian Emlyn Edwards, Angela Ellis, David Evans, Heather Lucas, Jake Smith, Kirsty Rees, Ruth Rabet, Samantha Lambert-Worgan, Stacey Baker, Alexander Still, Aoife Pryor, Suzanne Rinvolucri, Hannah Madd, Janet Willicott and Angela Ellis

**Ebrill 17, 2023** – Cyfarfod Hybrid, Prifysgol Bangor/Microsoft Teams

**Trosolwg:** Cyflwynodd Alice Running a Danielle Jata-Hall eu hymchwil, o dan y teitl a ganlyn (Saesneg yn unig): Parental Blame and the Pathological Demand Avoidance (PDA) Profile of Autism. Eglurodd yr awduron fod 'bai rhieni' yn cyfeirio at sefyllfa lle mae gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio â theulu yn honni neu'n awgrymu mai'r rhiant-ofalwr sydd, mewn rhyw ffordd, yn achosi anabledd eu plentyn.

Siaradodd Dean Clarke, sydd â mab awtistig wyth oed o'r enw Ethan, am brofiadau ei deulu o ran cael gwasanaethau a chymorth yng Ngogledd Cymru. Soniodd am y ffaith na chafodd llawer o gymorth ar ôl i'w fab gael diagnosis yn 2017-18, gan nodi bod y teulu wedi clywed y byddai rhywun yn cysylltu â hwy, ac wedi cael cyngor i ymuno â thudalennau cymorth i deuluoedd ar Facebook. Cododd Mr Clarke bryderon am y diffyg cymorth cofleidiol a ddarperir i deuluoedd plant anabl yn Ynys Môn.

Rhoddodd Lavinia Dowling, ymgynghorydd nyrsio arbenigol ym maes iechyd meddwl ac awtistiaeth, gyflwyniad am ei hastudiaeth ynghylch iechyd meddwl, awtistiaeth a'r proffil Osgoi Galw Patholegol (PDA). Mae sylfaenydd a chyfarwyddwr ymgynghoriaeth The M Word, cwmni buddiannau cymunedol sy'n arbenigo mewn darparu cymorth iechyd meddwl, wedi bod yn gweithio fel clinigydd ers 25 mlynedd. Dywedodd nad yw canllawiau NICE yn cydnabod Osgoi Galw Patholegol. Dywedodd nad oes modd i 70 y cant o blant a phobl ifanc â'r cyflwr hwn gael mynediad at addysg brif ffrwd, a bod

llawer o rieni yn wynebu cyhuddiadau mewn perthynas â salwch wedi'i ffugio neu ei achosi gan eraill.

**Yn bresennol:** Mark Isherwood AS, Chris Haines, Alice Running, Danielle Jata-Hall, Dean Clarke, Lavinia Dowling, Helen Wilson, Richard Wilson, Sioned Thomas, Kirsty Jones, Anna Story, Claire Bullock, David Evans, Steffan Davies, Dr Duncan Holthom, Sian Edwards, Emma Preece, Catherine Vaughan, Rachel Everell, Heather Lucas, Jeff Morris, John Price, Jolene Martin, Kae Fairhill, Kathryn Craine, Kyle Eldridge, Sian Delyth Lewis, Michael Williams, Aoife Prior, Kirsty Rees, Rosie Edwards, Sian Owen, Suzanne Rinvolucri, Sam Walsh, Jeni Andrews

**Medi 28, 2023** – Cyfarfod Hybrid, Tŷ Hywel/Microsoft Teams

**Trosolwg:** Siaradodd Kyle Jamie Eldridge am ei brofiadau ers cael ei ethol i Gyngor Tref y Fenni yn 25 oed. Soniodd am y cryfderau y gall pobl awtistig alw arnynt wrth wneud swyddi cyhoeddus, y rhwystrau y maent yn eu hwynebu, yn ogystal â phwysigrwydd cynyddu cynrychiolaeth a chyfranogiad.

Darparodd Wendy Thomas a Donna Sharland ddiweddariad ar waith y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol, gan egluro bod cylch gorchwyl y tîm wedi cael ei ehangu i gynnwys cyflyrau niwroddatblygiadol eraill, megis Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) a syndrom Tourette.

Rhoddodd Shaun Bendle, swyddog prosiect yn sefydliad Anabledd Cymru, drosolwg o'r prosiect Pŵer Cyfartal, Llais Cyfartal. Eglurodd mai nod y rhaglen fentora yw cael rhagor o bobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, menywod, pobl LHDT+ a phobl mewn swyddi gwneud penderfyniadau yng Nghymru.

**Yn bresennol:** Mark Isherwood AS, Chris Haines, Kyle Jamie Eldridge, Wendy Thomas, Donna Sharland, Shaun Bendle, Bill Fawcett, Daniel McNalty, Keith Ingram, Rachel Hazlewood, Ruth Rabet, Samantha Williams, Dr Sarah Broadhurst, Alexander Still, Yasmin Zahra, Ben Scott, Catrin Jones, Megan Thomas, Enya Morgan-Beattie, Victoria Morgan-Beattie, Elaine Jennings

**Rhagfyr 1, 2023** – Cyfarfod ar-lein, Microsoft Teams

**Trosolwg:**Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol er mwyn ail-ethol y Cadeirydd ac er mwyn cadarnhau'r Ysgrifennydd newydd, sef Tim Nicholls, sy'n disodli Chris Haines. Cafodd Mark Isherwood AS ei ailethol yn Gadeirydd. Myfyriodd Mark Isherwood yn fyr ar y flwyddyn flaenorol.

**Yn bresennol:** Mark Isherwood AS, Tim Nicholls, Alexander Still, Rhys Livesy, Paul O'Brien.

**3. Lobïwyr proffesiynol, sefydliadau gwirfoddol ac elusennau y mae'r Grŵp wedi cyfarfod â hwy yn ystod y flwyddyn flaenorol**

Mae cynrychiolwyr o'r sefydliadau gwirfoddol a'r elusennau a ganlyn wedi bod yn bresennol yng nghyfarfodydd y grŵp dros y flwyddyn ddiwethaf:

- Y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth
- Autistic UK
- Yr Ymddiriedolaeth Addysg Awtistiaeth
- Anabledd Cymru
- Dy Le Di

## 4. Datganiad Ariannol

**Treuliau**
Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, aethpwyd i'r treuliau canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfieithu | £576.00 |
| Teithio | £98.65 |

| | |
|---|---|
| Man cyfarfod | £40.00 |
| **Cyfanswm** | **£714.65** |

**Buddion**
Talwyd treuliau'r ysgrifenyddiaeth a threuliau'r cyfarfod, a amlinellir uchod, gan y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth.